

Bargen Newydd
i'r Gweithlu
Addysg



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Matrics carreg filltir arweinyddiaeth



Arwain, dysgu, ysbrydoli

Cynulleidfa

Pob ymarferydd addysg, gan gynnwys athrawon, arweinwyr a phenaethiaid sy'n gweithio gyda dysgwyr 3 i 19 oed.

Trosolwg

Mae'r cyhoeddiad hwn yn disgrifio yn gryno gofynion arweinyddiaeth fesul maes allweddol a charreg filltir arweinyddiaeth. Mae'n amlygu gweithgareddau y gellid eu cyflawni i ddatblygu ar bob carreg filltir. Bydd hyn yn cefnogi ymarferwyr i asesu eu galluoedd eu hunain a nodi camau nesaf mewn datblygu eu sgiliau arweinyddiaeth.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:

Yr Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol
Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cerrig milltir arweinyddiaeth	3
Gweithgareddau posibl (fesul carreg filltir arweinyddiaeth)	5
Athro wrth ei waith	5
Darpar arweinydd	6
Arweinydd canol	7
Uwch arweinydd	8
Darpar bennaeth	9
Pennaeth sydd newydd ei benodi	10
Pennaeth profiadol	11
Pennaeth gweithredol	12
Carreg filltir arweinyddiaeth (fesul maes allweddol)	13
Maes allweddol 1: Creu cyfeiriad strategol	13
Maes allweddol 2: Arwain dysgu ac addysgu	14
Maes allweddol 3: Datblygu a gweithio gydag eraill	15
Maes allweddol 4: Rheoli'r ysgol	16
Maes allweddol 5: Sicrhau atebolrwydd	17
Maes allweddol 6: Cryfhau'r ffocws cymunedol	18

Cyflwyniad

Yng Nghymru, rydym yn ymrwymedig i ddatblygu adnoddau arweinyddiaeth o fewn y system drwy annog a chynorthwyo pob ymarferydd i feithrin ei botensial arweinyddiaeth ei hun ar bob cam o'i yrfa. Mae ein polisiâu yn anelu at gynnig llwybr datblygu arweinyddiaeth clir a hyblyg sy'n gweddu i amgylchiadau a dyheadau ymarferwyr. Bydd y llwybr yn cynnwys ystod eang o gyfleoedd, gweithgareddau a rhaglenni dysgu a fydd yn creu ffynhonnell barhaus o dalent arweinyddiaeth y daw arweinwyr y dyfodol ohoni.

Caiff unigolion eu hannog i fapio eu trywydd penodol ac unigryw eu hunain ar hyd y llwybr arweinyddiaeth a dylent gael eu hannog i wneud hynny. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn ffordd unionlin anhyblyg.

Mae pob rôl arweinyddiaeth yn rhannu rhai sgiliau a phriodoleddau cyffredin, yn enwedig gweithio gydag eraill a dylanwadu arnynt er mwyn gwella profiadau dysgu pob dysgwr. Fodd bynnag, ar wahanol gamau o'r daith arweinyddiaeth bydd gan yr unigolyn anghenion gwahanol. Bydd y llwybr yn helpu i nodi a chreu cyfleoedd i'r rhai sy'n paratoi ar gyfer rolau arweinyddiaeth, y rhai sydd newydd gael eu penodi, a'r rhai â chryn dipyn o brofiad. Mae'n hollbwysig bod cyfleoedd ar gael i arweinwyr ar bob cam o'r daith hon.

Caiff arweinwyr eu hannog i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau dysgu proffesiynol ar lefel unigol, grŵp, sefydliad, consortiwm a chenedlaethol. Dylai'r gweithgareddau hyn gynnwys profiad mewn amrywiaeth o rolau, gweithgareddau a swyddi arweinyddiaeth, naill ai ar sail barhaol neu dros dro. Bydd y gweithgareddau hyn yn amrywio o ran y modd y'u cyflwynir, ond dylent gynnwys gwaith unigol a gwaith ar y cyd yn ogystal â chymryd rhan mewn dysgu ar-lein. Mae'n bwysig nodi y gall llawer o'r agweddau a nodir yn y llwybr gael eu cyflawni wrth ymgymryd â rolau sy'n bodoli eisoes.

Bydd llawer o'r dysgu proffesiynol a amlinellir yn y model hwn yn ddysgu hunangyfeiriedig, lle bydd unigolion yn gyfrifol am eu datblygiad eu hunain. Mae hon yn broses lle mae unigolion yn achub y blaen, gan bennu eu hanghenion a'u dyheadau dysgu yn ogystal a'u nodau dysgu a'r adnoddau cysylltiedig ar gyfer dysgu, cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol ac ymholi proffesiynol a gwerthuso deilliannau'r dysgu hwnnw. Er mwyn hwyluso hyn, mae'n rhaid mai dysgu proffesiynol sydd wrth wraidd arweinyddiaeth a diwylliant yr ysgol a'r system ehangach.

Cerrig milltir arweinyddiaeth

1. Athro wrth ei waith

Mae gan bob athro gyfrifoldeb i arwain dysgu ac addysgu yn eu hystafelloedd dosbarth, er mwyn diwallu anghenion pob dysgwr. Cyflawnir hyn mewn nifer o ffyrdd: craffu'n agos ar anghenion dysgu dysgwyr, yr ymdrech parhaus i ddatblygu dulliau effeithiol ac arloesol o ymdrin ag ymarfer addysgeg, meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn ymwneud â dysgu ac arwain a chydweithio â chydweithwyr er mwyn adolygu a gwella ymarfer addysgeg ar draws yr ysgol.

2. Darpar arweinydd

Y rhai sy'n anelu at y rôl er nad oes ganddynt eto gyfrifoldeb ffurfiol am y rôl.

3. Arweinydd canol

Bydd gan arweinwyr canol mewn ysgolion gyfrifoldebau gwahanol a all gynnwys arwain y cwricwlwm, arwain adran neu gyfnod, arwain darpariaeth fugeiliol, arwain cymorth ychwanegol, neu arwain blaenoriaethau gwella ysgol penodol. Byddant yn gyfrifol am dîm o staff fel rheolwr llinell; arwain tîm sy'n cynnig darpariaeth benodol; neu arwain tîm sy'n ymwneud â gweithgareddau datblygu. Wrth ddatblygu eu meysydd cyfrifoldeb penodol, mae arweinwyr canol yn cyfrannu at agenda wella'r ysgol yn enwedig meithrin diwylliant dysgu sy'n diwallu anghenion pob dysgwr, tra hefyd yn cyfrannu at ddatblygu galluoedd yn fwy cyffredinol.

4. Uwch arweinydd

Arweinwyr sy'n bennaf cyfrifol am agwedd ar arweinyddiaeth ar draws sefydliad. Mae hyn yn cynnwys uwch arweinwyr cwricwlaid/bugeiliol ac aelodau o uwch dîm arwain, fel penaethiaid cynorthwyol neu ddirprwy benaethiaid.

5. Darpar bennaeth

Y rhai sy'n anelu at y rôl er nad oes ganddynt eto gyfrifoldeb ffurfiol am y rôl.

6. Pennaeth sydd newydd ei benodi

Gan weithio gydag eraill, bydd penaethiaid yn sefydlu, yn cynnal ac yn gwella diwylliant dysgu mewn cydweithrediad â'r gymuned ysgol gyfan er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cyrraedd ei botensial. Mae penaethiaid yn gyfrifol am sicrhau bod y cyd-destun a'r diwylliant yn cael eu pennu er mwyn i eraill arwain yn effeithiol a bod ffocws clir a chytûn ar hunanwerthuso a gwella. Mae ganddynt rôl hollbwysig i'w chwarae wrth helpu arweinwyr i ddatblygu a meithrin adnoddau arweinyddiaeth o fewn y system.

7. Pennaeth profiadol

Bydd pob pennaeth, gan gynnwys y rhai â sawl blwyddyn o brofiad, yn parhau i fireinio a gwella eu hymarfer a cheisio heriau newydd er mwyn datblygu ymhellach ar lefel broffesiynol. Bydd penaethiaid sefydledig ac eraill yn gallu cynnig arweinyddiaeth ar gyfer gwella ar lefel systemau (consortïwm a chenedlaethol). Bydd hyn yn cynnwys y gallu i gynnig cymorth sylweddol i gyfoedion a sefydliadau addysgol eraill neu wneud cyfraniadau sylweddol i waith datblygu polisi ar draws systemau consortïwm ac addysg cenedlaethol. Dylid nodi nad yw'r term 'arweinydd system' yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru fel disgrifydd cyffredinol o arweinwyr ysgol. Yn hytrach, mae'n cael ei ddefnyddio i gyfeirio at rôl benodol. Mae'r 'arweinwyr system' yng Nghymru yn cael eu penodi gan gonsortia rhanbarthol i ddarparu herio, monitro a chymorth proffesiynol i ysgolion.

8. Pennaeth gweithredol

Bydd y rhinweddau sy'n ofynnol gan bennaeth profiadol, trwy ddiffiniad, hefyd yn cael eu cynnwys yn rôl y pennaeth gweithredol. Yn ogystal, bydd penaethiaid gweithredol yn atebol am ddatblygu'r chwe maes arweinyddiaeth allweddol ar draws dau neu fwy o ysgolion. Byddant yn cynnig arweinyddiaeth ar sail modelau penodol a phwrpasol o lywodraethu ysgolion a ffederaleiddio. Yn bwysicaf oll, byddant yn gallu rhannu a lledaenu arfer gorau ar draws yr ysgolion sy'n rhan o'r Ffederasiwn (caled neu feddal). Bydd ychwanegu gwerth drwy gydweithio ar draws y ffederasiwn ar sail strwythur staffio cyffredinol effeithiol, yn rhan annatod o'r rôl. Caiff staff y ffederasiwn eu lleoli mewn modd hyblyg a deinamig gan y pennaeth gweithredol, a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu sgiliau darpar arweinwyr, arweinwyr canol ac arweinwyr uwch o fewn y bartneriaeth o ysgolion. Bydd penaethiaid gweithredol hefyd yn cyfrannu at ac yn elwa ar ddatblygu arweinyddiaeth ar lefel ranbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, er mwyn hyrwyddo datblygiad cyffredinol y garreg filltir lefel uchel hon.

Mae'r pennaeth gweithredol yn gweithredu fel cyfaill beirniadol ar gyfer darpar benaethiaid ac mae phenaethiaid profiadol yn y Ffederasiwn, ac mae hefyd yn cynnig cymorth a chynghor i eraill o'r teulu lleol o ysgolion a thu hwnt.

Gweithgareddau posibl (fesul carreg filltir arweinyddiaeth)

Athro wrth ei waith

Maes allweddol 1: Creu cyfeiriad strategol

Myfyrio ar eich rôl a'ch cyfraniad at gyflawni gweledigaeth/blaenoriaethau datblygu'r ysgol yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o gyfeiriad strategol yr ysgol.

Maes allweddol 2: Arwain dysgu ac addysgu

Myfyrio ar effeithiolrwydd eich addysgu chi a dysgu'r dysgwr. Cyfrannu at y gwaith o gynllunio gwersi, arsylwi gwersi a rhoi adborth. Defnyddio data ar lefel ystafell ddosbarth er mwyn monitro cynnydd a chynllunio camau datblygu. Bod yn ymwybodol o'r set Data Craidd a goblygiadau hyn i'ch addysgu.

Maes allweddol 3: Datblygu a gweithio gydag eraill

Myfyrio ar berthynas broffesiynol â chydweithwyr a sut y caiff cydweithredu a deialog proffesiynol eu datblygu a'u cynnal. Cymryd rhan ystyrlon mewn cyfarfodydd tîm a phan fydd cyfleoedd eraill i weithio gydag eraill yn codi (e.e. gwaith cymuned ddysgu broffesiynol).

Maes allweddol 4: Rheoli'r ysgol

Yn ymwybodol o bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau ysgol gyfan ac yn eu gweithredu'n hyderus o fewn ei feysydd ei hun. Yn cyfrannu at y gwaith o werthuso ac adolygu polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau'r ysgol.

Maes allweddol 5: Sicrhau atebolrwydd

Cynnwys dysgwyr a staff cymorth yn y gwaith o bennu lefelau arweinyddiaeth dosbarthedig o fewn yr ystafell ddosbarth ac yna gallu eu dwyn i gyfrif gan ddefnyddio systemau seiliedig ar dystiolaeth a ddeallir yn llawn.

Maes allweddol 6: Cryfhau'r ffocws cymunedol

Yn ymwybodol o'r gymuned benodol y lleolir yr ysgol ynddi a'r amrywiaeth a gynrychiolir gan y dysgwyr a gaiff eu haddysgu. Yn ymwybodol o unrhyw rwysterau i gyflawni y gall dysgwyr fod yn eu hwynebu yn enwedig mewn perthynas ag effeithiau tlodi. Yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr mewn ysgolion eraill (cymuned ddysgu broffesiynol). Yn creu ac yn cynnal partneriaethau effeithiol â rhieni/gofalwyr.

Darpar arweinydd

Maes allweddol 1: Creu cyfeiriad strategol

Ystyried sut y gallwch gyfrannu'n fwy at agweddau ar weithredu cyfeiriad strategol yr ysgol drwy gydweithredu ag eraill wrth ddatblygu ymarfer ar y cyd.

Maes allweddol 2: Arwain dysgu ac addysgu

Magu profiad yn arsylwi gwersi a rhoi adborth mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Magu profiad yn dadansoddi data ar lefel ysgol, leol a chenedlaethol, gan lunio casgliadau ac awgrymu meysydd ar gyfer gwella.

Maes allweddol 3: Datblygu a gweithio gydag eraill

Magu profiad ym maes datblygu a gweithio gydag eraill drwy geisio cyfleoedd i arwain menter benodol neu gysgodi cydweithiwr mwy profiadol. Ystyried y ffactorau sy'n arwain at waith tîm effeithiol ac ymddygiad arweinwyr wrth sicrhau hyn. Ystyried sut mae arweinwyr yn atebol i eraill yn ogystal â dwyn eraill i gyfrif.

Maes allweddol 4: Rheoli'r ysgol

Magu profiad o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar bolisiâu, cynlluniau a gweithdrefnau fel cyllideb yr ysgol o bosibl drwy gysgodi rôl. Achub ar gyfleoedd i weld y corff llywodraethu wrth ei waith.

Maes allweddol 5: Sicrhau atebolrwydd

Ystyried cymryd cyfrifoldeb am weld gwelliant y tu hwnt i'r meysydd rydych yn gyfrifol amdanynt ac yna dwyn eich hun a chyfranwyr eraill i gyfrif am y deilliannau gan ddefnyddio systemau hunanwerthuso priodol.

Maes allweddol 6: Cryfhau'r ffocws cymunedol

Ystyried arwain prosiect cydweithredol â chydweithwyr o ysgolion eraill (cymuned ddysgu broffesiynol). Ystyried cysylltiadau ychwanegol y gellir eu gwneud rhwng yr ysgol a chymunedau lleol ac ehangach. Nodi sut y caiff cysylltiadau o'r fath effaith gadarnhaol ar safonau a lles dysgwyr.

Arweinydd canol

Maes allweddol 1: Creu cyfeiriad strategol

Cymryd cyfrifoldeb am gyflawni agweddau ar weledigaeth yr ysgol a deilliannau perfformiad yn eich maes. Rhannu'r weledigaeth hon â'ch tîm ac eraill drwy lunio a gweithredu cynllun datblygu seiliedig ar dystiolaeth ac ar feini prawf llwyddiant clir.

Maes allweddol 2: Arwain dysgu ac addysgu

Cymryd cyfrifoldeb am werthuso safonau dysgu ac addysgu ar draws pwnc neu faes cwrwllaidd. Gweithio i sicrhau bod disgwyliadau ac ymarfer yn gyson ar draws y maes cyfrifoldeb. Nodi meysydd ar gyfer gwella ac arfer da. Rhannu'r rhain â'ch tîm ac eraill drwy lunio a gweithredu cynllun datblygu seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynnwys deilliannau ac effaith a nodwyd. Nodi, modelu a rhannu arfer da drwy gyfrannu at waith dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol a thu hwnt iddi.

Maes allweddol 3: Datblygu a gweithio gydag eraill

Modelu dysgu a hunan-fyfyr. Cymryd cyfrifoldeb am helpu a herio unigolion neu grwpiau i gyflwyno gwelliant i gyflawni rhagoriaeth. Arwain drwy esiampl wrth bennu disgwyliadau uchel i chi'ch hun ac i eraill. Hyrwyddo ethos cadarnhaol o waith tîm cydweithredol. Bod yn ymwybodol o ddynameg tîm a defnyddio dull arwain priodol er mwyn cael y gorau allan o bob aelod. Defnyddio cyfleoedd system fel rheoli perfformiad a dysgu proffesiynol i annog datblygu gwaith tîm a datblygiad unigolion.

Maes allweddol 4: Rheoli'r ysgol

Cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod polisiau, cynlluniau a gweithdrefnau cytûn yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws y meysydd rydych yn gyfrifol amdanynt. Yn gweithredu gweithdrefnau hunanwerthuso yn unol â pholisi'r ysgol gyfan.

Maes allweddol 5: Sicrhau atebolrwydd

Rhoi systemau atebolrwydd ysgol cytûn ar waith yn y meysydd rydych yn gyfrifol amdanynt. Bod yn atebol i'r tîm a'r ysgol ehangach am eich cyfraniad eich hun. Paratoi adroddiadau ar y gwaith a'r safonau a gyflawnir yn y maes rydych yn gyfrifol amdano. Sicrhau bod systemau clir ar waith sy'n cydnabod yr atebolrwydd a chyfraniad pobl eraill.

Maes allweddol 6 Cryfhau'r ffocws cymunedol

Cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu ethos o gydweithredu â chydweithwyr o'r tu hwnt i'r ysgol. Manteisio i'r eithaf ar bartneriaethau cymunedol a chyfleoedd i ddysgwyr ddysgu gan eu cymuned leol ac ehangach a chyda hi. Meithrin dealltwriaeth glir o nodweddion y gymuned leol, e.e. byd gwaith er mwyn llywio gwaith cynllunio.

Uwch arweinydd

Maes allweddol 1: Creu cyfeiriad strategol

Cymryd cyfrifoldeb am rannu gweledigaeth yr ysgol ar draws nifer o feysydd drwy ymgysylltu'n broffesiynol â darpar gydweithwyr arwain a rhai craidd. Nodi cryfderau a gwendidau wrth rannu a chyflawni'r weledigaeth strategol ar draws yr ysgol a thu hwnt iddi.

Maes allweddol 2: Arwain dysgu ac addysgu

Nodi cryfderau a gwendidau mewn dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol. Defnyddio data i herio tanberfformiad a chyflawni targedau perfformio'r ysgol. Annog cydweithredu ar draws meysydd er mwyn datblygu arfer da ar draws yr ysgol. Monitro cynnydd ar draws amrywiaeth o bynciau neu feysydd cwricwlaidd.

Maes allweddol 3: Datblygu a gweithio gydag eraill

Nodi nodweddion timau effeithiol o fewn yr ysgol. Annog cydweithredu a mentora arweinwyr craidd er mwyn sicrhau bod ethos cadarnhaol cyson o waith tîm ar draws yr ysgol. Chwilio am gyfleoedd i ddatblygu arweinyddiaeth ddosbarthedig a datblygu unigolion gan gynnwys cyfleoedd i ddarpar arweinwyr. Modelu ymddygiadau effeithiol wrth arwain eraill.

Maes allweddol 4: Rheoli'r ysgol

Meddu ar ddealltwriaeth o ddiben a dulliau datblygu, gweithredu a monitro polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau'r ysgol. Yn gallu cyfleu'r ddealltwriaeth hon yng nghyd-destun cyfrannu at hunanwerthusiad yr ysgol gyfan o welliant.

Maes allweddol 5: Sicrhau atebolrwydd

Gallu cysylltu cyfraniad timau unigol o fewn yr ysgol â chyflawniad yr ysgol gyfan. Gallu nodi a chydabod cyfraniadau perthynol. Sicrhau bod systemau hunanwerthuso ac atebolrwydd yn cael eu gweithredu'n gyson

Maes allweddol 6: Cryfhau'r ffocws cymunedol

Cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu cyfleoedd i gyflwyno gwaith a chyflawniadau'r ysgol i'r gymuned leol ac ehangach. Cymryd cyfrifoldeb am feithrin eich gwybodaeth o anghenion ac adnoddau'r gymuned leol ac ehangach a sut y gellir rhannu'r rhain â chydweithwyr. Sicrhau yr achubir ar bob cyfle i gydweithredu ag ysgolion eraill er budd cydweithwyr ar draws yr ysgol.

Darpar bennaeth

Maes allweddol 1: Creu cyfeiriad strategol

Ystyried diben moesol arweinyddiaeth ysgol gyfan gan ddefnyddio chwe maes safonau arwain. Ystyried y rhesymau personol dros anelu at fod yn bennaeth. Bod yn barod i gyfleu'r rhesymau i eraill. Myfyrio ar brofiad hyd yn hyn gan ddefnyddio tystiolaeth o weithgareddau datblygu arweinyddiaeth blaenorol.

Maes allweddol 2: Arwain dysgu ac addysgu

Myfyrio ar eich ymarfer addysgeg eich hun. Bod yn barod i gyfleu rhesymeg seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer eich ymarfer. Ystyried sut y gall ymagwedd ysgol gyfan tuag at ymarfer ystafell ddosbarth ardderchog gael ei chyflawni a'i chynnal. Parhau i feithrin sgiliau dadansoddi data arsylwi ystafell ddosbarth a chynllunio ar gyfer gwella

Maes allweddol 3: Datblygu a gweithio gydag eraill

Nodi nodweddion timau effeithiol o fewn yr ysgol. Annog cydweithredu a mentora arweinwyr craidd er mwyn sicrhau bod ethos cadarnhaol cyson o waith tîm ar draws yr ysgol. Chwilio am gyfleoedd i ddatblygu arweinyddiaeth ddosbarthedig a datblygu unigolion gan gynnwys cyfleoedd i ddarpar arweinwyr. Modelu ymddygiadau effeithiol wrth arwain eraill.

Maes allweddol 4: Rheoli'r ysgol

Meithrin ymwybyddiaeth o waith cynllunio ariannol byrdymor a hirdymor. Meithrin ymwybyddiaeth o faterion personél gan gynnwys penodiadau. Gallu nodi'r cysylltiadau rhwng gwaith cynllunio ariannol a chynllunio staff a rhoi cynllun datblygu cytûn yr ysgol ar waith.

Maes Allweddol 5: Sicrhau atebolrwydd

Ystyried defnyddio profiad proffesiynol hyd yn hyn er mwyn pennu'r ffactorau sy'n cyfrannu at strwythur atebolrwydd effeithiol. Ystyried rôl y pennaeth a'r corff llywodraethu wrth sicrhau atebolrwydd. Bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan gyrff allanol er mwyn sicrhau atebolrwydd. Ystyried sut mae mesurau atebolrwydd mewnol yn gysylltiedig â'r rhain.

Maes allweddol 6: Cryfhau'r ffocws cymunedol

Ystyried sut y caiff y berthynas â chymunedau lleol ac ehangach ei datblygu a'i chynnal. Ystyried sut y caiff gwybodaeth am y gymuned leol ac ehangach ei throsglwyddo i gydweithwyr. Ystyried sut y caiff cyflawniadau'r ysgol eu rhannu â'r gymuned leol ac ehangach a sut y gellid eu hatgyfnerthu. Nodi'r prif asiantaethau y tu hwnt i'r ysgol sy'n cyfrannu at oresgyn anfantais a rhwystrau i ddysgu. Dysgu am eu gwaith a'u harferion.

Pennaeth sydd newydd ei benodi

Maes allweddol 1: Creu cyfeiriad strategol

Gan weithio gyda'ch mentor, nodi eich blaenoriaethau proffesiynol mewn perthynas â chyflawni a datblygu gweledigaeth a chyfeiriad strategol yr ysgol. Nodi sut y gwnewch sicrhau bod y weledigaeth hon yn cael ei rhannu, ei deall a'i chyflawni gan bawb.

Maes allweddol 2: Arwain dysgu ac addysgu

Gan weithio gyda'ch cydweithwyr a'ch mentor a chan ddadansoddi data perthnasol nodi cryfderau a gwendidau ar draws yr ysgol ym maes dysgu ac addysgu. Ystyried sut y gellir sicrhau cefnogaeth i wella o fewn yr ysgol a thu hwnt iddi. Ystyried cysondeb ymarfer dysgu ac addysgu da ym mhob maes o'r ysgol. Nodi meysydd i'w gwella ymhellach. Cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â gwella ymarfer yn cael ei ystyried yn neges gadarnhaol a chanolog o fewn cymuned yr ysgol.

Maes allweddol 3: Datblygu a gweithio gydag eraill

Gan weithio gyda'ch cydweithwyr a'ch mentor nodi cryfderau a gwendidau ar draws yr ysgol wrth ddatblygu eraill a chydweithio â nhw. Gan arwain drwy esiampl gallu cyfleu'r hyn a ystyrir yn arfer gorau yn y maes hwn. Ystyried arweinyddiaeth ddosbarthedig ar bob lefel yn yr ysgol. Ceisio gwella cyfleoedd datblygu unigol os oes angen.

Maes allweddol 4: Rheoli'r ysgol

Mewn ymgynghoriad â'r mentor a chyda'r gefnogaeth a'r her a gynigir gan yr awdurdod lleol (ALI) a chyrrff allanol eraill, adolygu'r polisiau, y cynlluniau a'r gweithdrefnau a geir o fewn yr ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn ategu'n gywir y broses o gyflawni gweledigaeth a chyfeiriad strategol yr ysgol.

Maes allweddol 5: Sicrhau atebolrwydd

Mewn cydweithrediad â'ch mentor a chydweithwyr eraill ystyried cadernid systemau atebolrwydd yr ysgol. Lle bo angen cymryd camau i sicrhau bod y system sydd ar waith yn gyson ac yn effeithiol wrth ddwyn pob aelod o staff i gyfrif am ganlyniadau cytûn. Meithrin perthynas waith gadarnhaol â'r corff llywodraethu gyda dealltwriaeth glir o'ch priod rolau ym maes sicrhau atebolrwydd.

Maes allweddol 6: Cryfhau'r ffocws cymunedol

Gan weithio gyda chydweithwyr a'ch mentor sicrhau bod gennych ddealltwriaeth glir a chyfredol o'r cyd-destun lleol ac ehangach y mae'r ysgol yn gweithredu ynddo. Treulio amser yn datblygu berthynas broffesiynol dda ag asiantaethau sy'n cefnogi gwaith yr ysgol yn enwedig wrth oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Sicrhau bod gan y gymuned leol ac ehangach ddealltwriaeth glir a chywir o gyflawniadau'r ysgol. Nodi unrhyw rhwystrau rhag perthynas waith dda â rhieni/gofalwyr.

Pennaeth profiadol

Maes allweddol 1: Creu cyfeiriad strategol

Sicrhau bod gweledigaeth yr ysgol yn adlewyrchu ymrwymiad i welliant parhaus. Sicrhau bod cynlluniau strategol a gweithredol yn adlewyrchu anghenion yr ysgol nawr ac yn y dyfodol a bod y rhain yn cael eu rhannu â phob aelod o staff ac yn cael eu gweithredu ganddynt gan arwain at wella safonau a lles ymhellach. Bod yn fentor i ddarpar benaethiaid a rhai sydd newydd eu penodi. Cyfrannu at gyfeiriad strategol ar lefel leol a chenedlaethol.

Maes allweddol 2: Arwain dysgu ac addysgu

Sicrhau bod dysgu proffesiynol o fewn yr ysgol yn adlewyrchu ymrwymiad i welliant parhaus. Sicrhau bod holl aelodau cymuned yr ysgol yn cael eu hannog i ganolbwyntio ar gymhwyso ymarfer dysgu ac addysgu ardderchog yn gyson fel yr hyn sy'n allweddol i welliant. Annog cydweithredu er mwyn gwella ymarfer ar bob lefel o fewn yr ysgol a thu hwnt. Bod yn fentor i ddarpar benaethiaid a rhai sydd newydd eu penodi. Cyfrannu at y gwaith o nodi a rhannu ymarfer dysgu ac addysgu ardderchog ar lefel leol a chenedlaethol.

Maes allweddol 3: Datblygu a gweithio gydag eraill

Sicrhau eich bod yn parhau i fodelu arfer gorau wrth ddatblygu eraill a gweithio gyda nhw. Myfyrio ar eich ymarfer a'ch dulliau arwain eich hun. Ystyried a yw'r rhain yn dal i fod yn berthnasol i anghenion yr ysgol a chydweithwyr. Troi at gyfoedion a chydweithwyr yr ymddiriedir ynddynt i gynnig adborth ar eich dull arwain mewn perthynas â datblygu eraill. Bod yn fentor i ddarpar benaethiaid a rhai sydd newydd eu penodi.

Maes allweddol 4: Rheoli'r ysgol

Gallu adolygu'r polisiâu, cynlluniau a gweithdrefnau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gynrychioli arfer gorau a diwallu anghenion yr ysgol nawr ac yn y dyfodol. Gallu cyfrannu at y gefnogaeth a'r her a gynigir i ysgolion eraill. Bod yn fentor i ddarpar benaethiaid a rhai sydd newydd eu penodi.

Maes allweddol 5: Sicrhau atebolrwydd

Parhau i ddatblygu arweinyddiaeth ddosbarthedig tra'n parhau i gynnal trosolwg manwl gywir o berfformiad yr ysgol a'r meysydd i'w gwella. Sicrhau bod y corff llywodraethu yn cael gwybodaeth glir sy'n ei alluogi i wneud penderfyniadau atebolrwydd yn seiliedig ar dystiolaeth. Sicrhau bod yr ysgol wedi'i pharatoi ar gyfer atebolrwydd allanol. Cyfrannu at y system ehangach drwy gymryd rhan mewn ymweliadau atebolrwydd ag ysgolion eraill. Bod yn fentor i ddarpar benaethiaid a rhai sydd newydd eu penodi.

Maes allweddol 6: Cryfhau'r ffocws cymunedol

Treulio amser yn adolygu perthynas gymunedol ac arferion gydweithredol cyfredol. Ystyried a yw'r ysgol yn gwneud y defnydd gorau o ddarpar bartneriaid yn y gymuned leol ac ehangach. Ystyried sut mae'r ysgol yn paratoi pob dysgwr i fod yn ddinasyddion gweithgar. Ystyried eich rôl bersonol chi yn y gymuned leol a sut mae hyn yn cyfrannu at y rôl ganolog y mae'r ysgol yn ei chwarae yn y gymuned. Bod yn fentor i ddarpar benaethiaid a rhai sydd newydd eu penodi.

Pennaeth gweithredol

Maes allweddol 1: Creu cyfeiriad strategol

Sicrhau bod gweledigaeth y Ffederasiwn yn seiliedig ar welliant parhaus, a bod y dull gweithredu corfforaethol hwn yn cael ei fynegi'n glir i ddysgwyr, staff a rhanddeiliaid eraill. Sicrhau bod y weledigaeth yn cael ei gweithredu fel rhan hanfodol o waith pob maes bob dydd yn y Ffederasiwn.

Maes allweddol 2: Arwain dysgu ac addysgu

Myfyrion ar sut all cydweithio rhwng ysgolion wella'r ddarpariaeth dysgu ac addysgu, a hefyd meithrin cysylltiadau ag ysgolion eraill a Ffederasiynau tebyg, er mwyn rhannu arfer gorau ar lefel rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Maes allweddol 3: Datblygu a gweithio gydag eraill

Gweithredu model cydlynol o gynllunio ar gyfer olyniaeth ar draws y Ffederasiwn, sy'n seiliedig ar raglen gynhwysfawr o ddatblygiad proffesiynol parhaus i bawb. Meddwl yn greadigol sut gellir manteisio ar gyfleoedd o fewn y Ffederasiwn drwy leoli staff mewn modd hyblyg wrth i anghenion unigol a sefydliadol godi a datblygu.

Maes allweddol 4: Rheoli'r ysgol

Creu cynllun i sicrhau arferion rheoli effeithlon ac effeithiol ar draws y Ffederasiwn, a ategir gan ddefnydd cydlynol a dyfeisgar o TGCh. Ymchwilio sut caiff arbedion maint eu cyflawni a sut y gellir ail-fuddsoddi arbedion yn y Ffederasiwn er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian.

Maes allweddol 5: Sicrhau atebolrwydd

Mireinio model llywodraethu'r Ffederasiwn i sicrhau bod cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd yn glir fel bod pawb, ar bob lefel, yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt er mwyn symud y sefydliad yn ei blaen yn barhaus. Sicrhau bod yr adolygiad hwn yn cyd-fynd â'r gwaith o symleiddio gofynion atebolrwydd allanol sy'n effeithio ar y sefydliad a'r ysgolion sy'n rhan ohono.

Maes allweddol 6: Cryfhau'r ffocws cymunedol

Paratoi adolygiad uchelgeisiol o 'gyfalaf broceru' y Ffederasiwn er mwyn datblygu cysylltiadau cynhyrchiol â sefydliadau eraill, yn enwedig rhai nodedig a phwysig. Sicrhau bod y cysylltiadau cymunedol cynhyrchiol hyn yn ategu ac yn sail ar gyfer addysgu a dysgu pob disgybl yn y Ffederasiwn.

Carreg filltir arweinyddiaeth

(fesul maes allweddol)

Maes allweddol 1: Creu cyfeiriad strategol

- **Athro wrth ei waith:** Myfyrio ar eich rôl a'ch cyfraniad at gyflawni gweledigaeth/blaenoriaethau datblygu'r ysgol yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o gyfeiriad strategol yr ysgol.
- **Darpar arweinydd:** Ystyried sut y gallwch gyfrannu'n fwy at agweddau ar weithredu cyfeiriad strategol yr ysgol drwy gydweithredu ag eraill wrth ddatblygu ymarfer ar y cyd.
- **Arweinydd canol:** Cymryd cyfrifoldeb am gyflawni agweddau ar weledigaeth yr ysgol a deilliannau yn eich maes. Rhannu'r weledigaeth hon â'ch tîm ac eraill drwy lunio a gweithredu cynllun datblygu seiliedig ar dystiolaeth ac ar feini prawf llwyddiant clir.
- **Uwch arweinydd:** Cymryd cyfrifoldeb am rannu gweledigaeth yr ysgol ar draws nifer o feysydd drwy ymgysylltu'n broffesiynol â darpar gydweithwyr arwain a rhai craidd. Nodi cryfderau a gwendidau wrth rannu a chyflawni'r weledigaeth strategol ar draws yr ysgol a thu hwnt iddi.
- **Darpar bennaeth:** Ystyried diben moesol arweinyddiaeth ysgol gyfan gan ddefnyddio chwe maes safonau arweinyddiaeth. Ystyried y rhesymau personol dros anelu at fod yn bennaeth. Bod yn barod i gyfleu'r rhesymau i eraill. Myfyrio ar brofiad hyd yn hyn gan ddefnyddio tystiolaeth o weithgareddau datblygu arweinyddiaeth blaenorol.
- **Pennaeth sydd newydd ei benodi:** Gan weithio gyda'ch mentor, nodi eich blaenoriaethau proffesiynol mewn perthynas â chyflawni a datblygu gweledigaeth a chyfeiriad strategol yr ysgol. Nodi sut y gwnewch sicrhau bod y weledigaeth hon yn cael ei rhannu, ei deall a'i chyflawni gan bawb.
- **Pennaeth profiadol:** Sicrhau bod gweledigaeth yr ysgol yn adlewyrchu ymrwymiad i welliant parhaus. Sicrhau bod cynlluniau strategol a gweithredol yn adlewyrchu anghenion yr ysgol nawr ac yn y dyfodol a bod y rhain yn cael eu rhannu â phob aelod o staff ac yn cael eu gweithredu ganddynt gan arwain at wella safonau a lles ymhellach. Bod yn fentor i ddarpar bennaethiaid a rhai sydd newydd eu penodi. Cyfrannu at gyfeiriad strategol ar lefel leol a chenedlaethol.
- **Pennaeth gweithredol:** Sicrhau bod gweledigaeth y Ffederasiwn yn seiliedig ar welliant parhaus, a bod y dull gweithredu corfforaethol hwn yn cael ei fynegi'n glir i ddysgwyr, staff a rhanddeiliaid eraill. Sicrhau bod y weledigaeth yn cael ei gweithredu fel rhan hanfodol o gwaith bob dydd pob maes yn y Ffederasiwn.

Maes allweddol 2: Arwain dysgu ac addysgu

- **Athro wrth ei waith:** Myfyrio ar effeithiolrwydd eich addysgu chi a dysgu'r dysgwr. Cyfrannu at y gwaith o gynllunio gwersi, arsylwi gwersi a rhoi adborth. Defnyddio data ar lefel ystafell ddosbarth er mwyn monitro cynnydd a chynllunio camau datblygu. Bod yn ymwybodol o'r set Data Craidd a goblygiadau hyn i'ch addysgu.
- **Darpar arweinydd:** Magu profiad yn arsylwi gwersi a rhoi adborth mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Magu profiad yn dadansoddi data ar lefel ysgol, leol a chenedlaethol, gan lunio casgliadau ac awgrymu meysydd ar gyfer gwella.
- **Arweinydd canol:** Cymryd cyfrifoldeb am werthuso safonau addysgu a dysgu ar draws pwnc neu faes cwricwlaidd. Gweithio i sicrhau bod disgwyliadau ac ymarfer yn gyson ar draws y maes cyfrifoldeb. Nodi meysydd ar gyfer gwella ac arfer da. Rhannu'r rhain â'ch tîm ac eraill drwy lunio a gweithredu cynllun datblygu seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynnwys deilliannau ac effaith a nodwyd. Nodi, modelu a rhannu arfer da drwy gyfrannu at waith dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol a thu hwnt iddi.
- **Uwch arweinydd:** Nodi cryfderau a gwendidau mewn addysgu a dysgu ar draws yr ysgol. Defnyddio data i herio tanberfformiad a chyflawni targedau perfformio ysgol. Annog cydweithredu ar draws meysydd er mwyn datblygu arfer da ar draws yr ysgol. Monitro cynnydd ar draws amrywiaeth o bynciau neu feysydd cwricwlaidd.
- **Darpar bennaeth:** Myfyrio ar eich ymarfer addysgeg eich hun. Bod yn barod i gyfleu rhesymeg seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer eich ymarfer. Ystyried sut y gall ymagwedd ysgol gyfan tuag at ymarfer ystafell ddosbarth ardderchog gael ei chyflawni a'i chynnal. Parhau i feithrin sgiliau dadansoddi data arsylwi ystafell ddosbarth a chynllunio ar gyfer gwella.
- **Pennaeth sydd newydd ei benodi:** Gan weithio gyda'ch cydweithwyr a'ch mentor a chan ddadansoddi data perthnasol nodi cryfderau a gwendidau ar draws yr ysgol ym maes dysgu ac addysgu. Ystyried sut y gellir sicrhau cefnogaeth i wella o fewn yr ysgol a thu hwnt iddi. Ystyried cysondeb ymarfer dysgu ac addysgu da ym mhob maes o'r ysgol. Nodi meysydd i'w gwella ymhellach. Cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â gwella ymarfer yn cael ei ystyried yn neges gadarnhaol a chanolog o fewn cymuned yr ysgol.
- **Pennaeth profiadol:** Sicrhau bod dysgu proffesiynol o fewn yr ysgol yn adlewyrchu ymrwymiad i welliant parhaus. Sicrhau bod holl aelodau cymuned yr ysgol yn cael eu hannog i ganolbwyntio ar gymhwyso ymarfer dysgu ac addysgu ardderchog yn gyson fel yr hyn sy'n allweddol i welliant. Annog cydweithredu er mwyn gwella ymarfer ar bob lefel o fewn yr ysgol a thu hwnt. Bod yn fentor i ddarpar benaethiaid a rhai sydd newydd eu penodi. Cyfrannu at y gwaith o nodi a rhannu ymarfer dysgu ac addysgu ardderchog ar lefel leol a chenedlaethol.
- **Pennaeth gweithredol:** Myfyrio ar sut all cydweithio rhwng ysgolion wella'r ddarpariaeth dysgu ac addysgu, a hefyd meithrin cysylltiadau ag ysgolion eraill a Ffederasiynau tebyg, er mwyn rhannu arfer gorau ar lefel rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Maes allweddol 3: Datblygu a gweithio gydag eraill

- **Athro wrth ei waith:** Myfyrion ar berthynas broffesiynol â chydweithwyr a sut y caiff cydweithredu a deialog broffesiynol eu datblygu a'u cynnal. Cymryd rhan ystyrlon mewn cyfarfodydd tîm a phan fydd cyfleoedd eraill i weithio gydag eraill yn codi (e.e. gwaith cymuned ddysgu broffesiynol).
- **Darpar arweinydd:** Magu profiad ym maes datblygu a gweithio gydag eraill drwy geisio cyfleoedd i arwain menter benodol neu gysgodi cydweithiwr mwy profiadol. Ystyried y ffactorau sy'n arwain at gyflawni gwaith tîm effeithiol ac ymddygiad arweinwyr wrth sicrhau hyn. Ystyried sut mae arweinwyr yn atebol i eraill yn ogystal â dwyn eraill i gyfrif.
- **Arweinydd canol:** Modelu dysgu a hunan-fyfyrion. Cymryd cyfrifoldeb am helpu a herio unigolion neu grwpiau i gyflwyno gwelliant i gyflawni rhagoriaeth. Arwain drwy esiampl wrth bennu disgwyliadau uchel i chi'ch hun ac i eraill. Hyrwyddo ethos cadarnhaol o waith tîm cydweithredol. Bod yn ymwybodol o ddynwedd tîm a defnyddio dull arwain priodol er mwyn cael y gorau allan o bob aelod. Defnyddio cyfleoedd system fel rheoli perfformiad a dysgu proffesiynol i annog datblygu gwaith tîm a datblygiad unigolion.
- **Uwch arweinydd:** Nodi nodweddion timau effeithiol o fewn yr ysgol. Annog cydweithredu a mentora arweinwyr craidd er mwyn sicrhau bod ethos cadarnhaol cyson o waith tîm ar draws yr ysgol. Chwilio am gyfleoedd i ddatblygu arweinyddiaeth ddosbarthedig a datblygu unigolion gan gynnwys cyfleoedd i ddarpar arweinwyr. Modelu ymddygiadau effeithiol wrth arwain eraill.
- **Darpar bennaeth:** Nodi nodweddion timau effeithiol o fewn yr ysgol. Annog cydweithredu a mentora arweinwyr craidd er mwyn sicrhau bod ethos cadarnhaol cyson o waith tîm ar draws yr ysgol. Chwilio am gyfleoedd i ddatblygu arweinyddiaeth ddosbarthedig a datblygu unigolion gan gynnwys cyfleoedd i ddarpar arweinwyr. Modelu ymddygiadau effeithiol wrth arwain eraill.
- **Pennaeth sydd newydd ei benodi:** Gan weithio gyda'ch cydweithwyr a'ch mentor nodi cryfderau a gwendidau ar draws yr ysgol wrth ddatblygu eraill a chydweithio â hwy. Gan arwain drwy esiampl gallu cyfleu'r hyn a ystyrir yn arfer gorau yn y maes hwn. Ystyried arweinyddiaeth ddosbarthedig ar bob lefel yn yr ysgol. Ceisio gwella cyfleoedd datblygu unigol os oes angen.
- **Pennaeth profiadol:** Sicrhau eich bod yn parhau i fodelu arfer gorau wrth ddatblygu eraill a gweithio gyda nhw. Myfyrion eich ymarfer a'ch dulliau arwain eich hun. Ystyried a yw'r rhain yn dal i fod yn berthnasol i anghenion yr ysgol a chydweithwyr. Troi at gyfoedion a chydweithwyr yr ymddiriedir ynddynt i gynnig adborth ar eich dull arwain mewn perthynas â datblygu eraill. Bod yn fentor i ddarpar benaethiaid a rhai sydd newydd eu penodi.
- **Pennaeth gweithredol:** Gweithredu model cydlynol o gynllunio ar gyfer olyniaeth ar draws y Ffederasiwn, sy'n seiliedig ar raglen gynhwysfawr o ddatblygiad proffesiynol parhaus i bawb. Meddwl yn greadigol sut gellir manteisio ar gyfleoedd o fewn y Ffederasiwn drwy leoli staff mewn modd hyblyg wrth i anghenion unigol a sefydliadol godi a datblygu.

Maes allweddol 4: Rheoli'r ysgol

- **Athro wrth ei waith:** Yn ymwybodol o bolisiau, cynlluniau a gweithdrefnau ysgol gyfan ac yn eu gweithredu'n hyderus o fewn ei feysydd ei hun. Yn cyfrannu at y gwaith o werthuso ac adolygu polisiau, cynlluniau a gweithdrefnau'r ysgol.
- **Darpar arweinydd:** Magu profiad o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar bolisiau, cynlluniau a gweithdrefnau fel cyllideb yr ysgol o bosibl drwy gysgodi rôl. Achub ar gyfleoedd i weld y corff llywodraethu wrth ei waith.
- **Arweinydd canol:** Cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod polisiau, cynlluniau a gweithdrefnau cytûn yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws y meysydd rydych yn gyfrifol amdanynt. Gweithredu gweithdrefnau hunanwerthuso yn unol â pholisi'r ysgol gyfan.
- **Uwch arweinydd:** Meddu ar ddealltwriaeth o ddiben a dulliau datblygu, gweithredu a monitro polisiau, cynlluniau a gweithdrefnau'r ysgol. Gallu cyfleu'r ddealltwriaeth hon yng nghyd-destun cyfrannu at hunanwerthusiad yr ysgol gyfan o welliant.
- **Darpar bennaeth:** Meithrin ymwybyddiaeth o waith cynllunio ariannol byrdymor a hirdymor. Meithrin ymwybyddiaeth o faterion personél gan gynnwys penodiadau. Yn gallu nodi'r cysylltiadau rhwng gwaith cynllunio ariannol a chynllunio staff a rhoi cynllun datblygu cytûn yr ysgol ar waith.
- **Pennaeth sydd newydd ei benodi:** Mewn ymgynghoriad â'r mentor a chyda'r gefnogaeth a'r her a gynigir gan yr ALL a chyrff allanol eraill, adolygu'r polisiau, y cynlluniau a'r gweithdrefnau a geir o fewn yr ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn ategu'n gywir y broses o gyflawni gweledigaeth a chyfeiriad strategol yr ysgol.
- **Pennaeth profiadol:** Yn gallu adolygu'r polisiau, cynlluniau a gweithdrefnau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gynrychioli arfer gorau a diwallu anghenion yr ysgol nawr ac yn y dyfodol. Yn gallu cyfrannu at y gefnogaeth a'r her a gynigir i ysgolion eraill. Bod yn fentor i ddarpar benaethiaid a rhai sydd newydd eu penodi.
- **Pennaeth gweithredol:** Creu cynllun i sicrhau arferion rheoli effeithlon ac effeithiol ar draws y Ffederasiwn, a ategir gan ddefnydd cydlynol a dyfeisgar o TGCh. Ymchwilio sut caiff arbedion maint eu cyflawni a sut y gellir ail-fuddsoddi arbedion yn y Ffederasiwn er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian.

Maes allweddol 5: Sicrhau atebolrwydd

- **Athro wrth ei waith:** Cynnwys dysgwyr a staff cymorth yn y gwaith o bennu lefelau arweinyddiaeth dosbarthedig o fewn yr ystafell ddosbarth ac yna gallu eu dwyn i gyfrif gan ddefnyddio systemau seiliedig ar dystiolaeth a ddeallir yn llawn.
- **Darpar arweinydd:** Ystyried cymryd cyfrifoldeb am weld gwelliant y tu hwnt i'r meysydd rydych yn gyfrifol amdanynt ac yna dwyn eich hun a chyfranwyr eraill i gyfrif am y canlyniadau gan ddefnyddio systemau hunanwerthuso priodol.
- **Arweinydd canol:** Rhoi systemau atebolrwydd ysgol cytûn ar waith yn y meysydd rydych yn gyfrifol amdanynt. Bod yn atebol i'r tîm a'r ysgol ehangach am eich cyfraniad eich hun. Paratoi adroddiadau ar y gwaith a'r safonau a gyflawnir yn y maes rydych yn gyfrifol amdano. Sicrhau bod systemau clir ar waith sy'n cydnabod yr atebolrwydd a chyfraniad pobl eraill.
- **Uwch arweinydd:** Gallu cysylltu cyfraniad timau unigol o fewn yr ysgol â chyflawniad yr ysgol gyfan. Gallu nodi a chydabod cyfraniadau perthynol. Sicrhau bod systemau hunanwerthuso ac atebolrwydd yn cael eu gweithredu'n gyson.
- **Darpar bennaeth:** Ystyried defnyddio profiad proffesiynol hyd yn hyn er mwyn pennu'r ffactorau sy'n cyfrannu at strwythur atebolrwydd effeithiol. Ystyried rôl y pennaeth a'r corff llywodraethu wrth sicrhau atebolrwydd. Bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan gyrff allanol er mwyn sicrhau atebolrwydd. Ystyried sut mae mesurau atebolrwydd mewnol yn gysylltiedig â'r rhain.
- **Pennaeth sydd newydd ei benodi:** Mewn cydweithrediad â'ch mentor a chydweithwyr eraill ystyried cadernid systemau atebolrwydd yr ysgol. Lle bo angen cymryd camau i sicrhau bod y system sydd ar waith yn gyson ac yn effeithiol wrth ddwyn pob aelod o staff i gyfrif am ganlyniadau cytûn. Meithrin perthynas waith gadarnhaol â'r corff llywodraethu gyda dealltwriaeth glir o'ch priodolau ym maes sicrhau atebolrwydd.
- **Pennaeth profiadol:** Carhau i ddatblygu arweinyddiaeth ddosbarthedig tra'n parhau i gynnal trosolwg manwl gywir o berfformiad yr ysgol a'r meysydd i'w gwella. Sicrhau bod y corff llywodraethu yn cael gwybodaeth glir sy'n ei alluogi i wneud penderfyniadau atebolrwydd yn seiliedig ar dystiolaeth. Sicrhau bod yr ysgol wedi'i pharatoi ar gyfer atebolrwydd allanol. Cyfrannu at y system ehangach drwy gymryd rhan mewn ymweliadau atebolrwydd ag ysgolion eraill. Bod yn fentor i ddarpar benaethiaid a rhai sydd newydd eu penodi.
- **Pennaeth gweithredol:** Mireinio model llywodraethu'r Ffederasiwn i sicrhau bod cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd yn glir fel bod pawb, ar bob lefel, yn gwybod beth a ddisgwyllir ganddynt er mwyn symud y sefydliad yn ei blaen yn barhaus. Sicrhau bod yr adolygiad hwn yn cyd-fynd â'r gwaith o symleiddio gofynion atebolrwydd allanol sy'n effeithio ar y sefydliad a'r ysgolion sy'n rhan ohono.

Maes allweddol 6: Cryfhau'r ffocws cymunedol

- **Athro wrth ei waith:** Yn ymwybodol o'r gymuned benodol y lleolir yr ysgol ynddi a'r amrywiaeth a gynrychiolir gan y dysgwyr a gaiff eu haddysgu. Yn ymwybodol o unrhyw rwystrau rhag cyflawni y gall dysgwyr fod yn eu hwynebu yn enwedig mewn perthynas ag effeithiau tlodi. Gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr mewn ysgolion eraill (cymuned ddysgu broffesiynol). Creu ac yn cynnal partneriaethau effeithiol â rhieni/gofalwyr.
- **Darpar arweinydd:** Ystyried arwain prosiect cydweithredol â chydweithwyr o ysgolion eraill (cymuned ddysgu broffesiynol). Ystyried cysylltiadau ychwanegol y gellir eu gwneud rhwng yr ysgol a chymunedau lleol ac ehangach. Nodi sut y caiff cysylltiadau o'r fath effaith gadarnhaol ar safonau a lles dysgwyr.
- **Arweinydd canol:** Cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu ethos o gydweithredu â chydweithwyr o'r tu hwnt i'r ysgol. Manteisio i'r eithaf ar bartneriaethau cymunedol a chyfleoedd i ddysgwyr ddysgu gan eu cymuned leol ac ehangach a chyda hi. Meithrin dealltwriaeth glir o nodweddion y gymuned leol, e.e. byd gwaith er mwyn llywio gwaith cynllunio.
- **Uwch arweinydd:** Cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu cyfleoedd i gyflwyno gwaith a chyflawniadau'r ysgol i'r gymuned leol ac ehangach. Cymryd cyfrifoldeb am feithrin eich gwybodaeth o anghenion ac adnoddau'r gymuned leol ac ehangach a sut y gellir rhannu'r rhain â chydweithwyr. Sicrhau yr achubir ar bob cyfle i gydweithredu ag ysgolion eraill er budd cydweithwyr ar draws yr ysgol.
- **Darpar bennaeth:** Ystyried sut y caiff y berthynas â chymunedau lleol ac ehangach ei datblygu a'i cynnal. Ystyried sut y caiff gwybodaeth am y gymuned leol ac ehangach ei throsglwyddo i gydweithwyr. Ystyried sut y caiff cyflawniadau'r ysgol eu rhannu â'r gymuned leol ac ehangach a sut y gellid eu hatgyfnerthu. Nodi'r prif asiantaethau y tu hwnt i'r ysgol sy'n cyfrannu at oresgyn anfantais a rhwystrau rhag ddysgu. Dysgu am eu gwaith a'u harferion.
- **Pennaeth sydd newydd ei benodi:** Gan weithio gyda chydweithwyr a'ch mentor sicrhau bod gennych ddealltwriaeth glir a chyfredol o'r cyd-destun lleol ac ehangach y mae'r ysgol yn gweithredu ynddo. Treulio amser yn datblygu perthynas broffesiynol dda ag asiantaethau sy'n cefnogi gwaith yr ysgol yn enwedig wrth oresgyn rhwystrau rhag ddysgu. Sicrhau bod gan y gymuned leol ac ehangach ddealltwriaeth glir a chywir o gyflawniadau'r ysgol. Nodi unrhyw rwystrau rhag perthnasau waith dda â rhieni/gofalwyr.
- **Pennaeth profiadol:** Treulio amser yn adolygu'r berthynas â'r gymuned ac arferion cydweithredol cyfredol. Ystyried a yw'r ysgol yn gwneud y defnydd gorau o ddarpar bartneriaid yn y gymuned leol ac ehangach. Ystyried sut mae'r ysgol yn paratoi pob dysgwr i fod yn ddinasyddion gweithgar. Ystyried eich rôl bersonol chi yn y gymuned leol a sut mae hyn yn cyfrannu at y rôl ganolog y mae'r ysgol yn ei chwarae yn y gymuned. Bod yn fentor i ddarpar benaethiaid a rhai sydd newydd eu penodi.
- **Pennaeth gweithredol:** Paratoi adolygiad uchelgeisiol o 'gyfalaf broceru' y Ffederasiwn er mwyn datblygu cysylltiadau cynhyrchiol â sefydliadau eraill, yn enwedig rhai nodedig a phwysig. Sicrhau bod y cysylltiadau cymunedol cynhyrchiol hyn yn ategu ac yn sail ar gyfer dysgu ac addysgu pob dysgwr yn y Ffederasiwn.